



Tanio'r dychymyg

Datganiad	Ateb - cywir neu anghywir
Cymerodd hi 6 diwrnod i ddiffodd tân mawr Rhufain a ddechreuodd ar 19 Gorffennaf 64 OC.	Cywir Oherwydd y tân roedd mwy na 70% o'r ddinas yn adfeilion.
Mae'r rhan fwyaf o'r tanwyddau rydyn ni'n eu defnyddio i wneud tân yn cael eu hynni o'r haul.	Cywir Mae llawer o'r tanwydd rydym yn ei ddefnyddio i wneud tân ar ffurf tanwyddau ffosil, sydd wedi defnyddio ynni'r haul naill ai fel ffynhonnell ynni gynradd neu eilaidd. Er enghraifft, roedd coed a phlanhigion a drodd yn araf yn lo ac oled, yn defnyddio ynni o olau'r haul ac yn ei droi'n ynni cemegol trwy'r broses ffotosynthesis.
Gall tanau losgi ar y blaned lau.	Anghywir Y ddaear yw'r unig blaned lle gwyddom y gall tân losgi. Mae atmosffer lau yn cynnwys 90% hydrogen, a 10% heliwm. Mae llosgi yn adwaith cemegol rhwng sylweddau, yn cynnwys ocsigen fel arfer, sy'n cynhyrchu ynni gwres a golau. Ar y ddaear, mae hydrogen yn llosgi oherwydd ei fod yn cyfuno ag ocsigen. Does dim ocsigen ar gyfer tân ar y blaned lau.
Mae pobl wedi bod yn defnyddio tân ers cymaint â 200,000 o flynyddoedd.	Anghywir Mae bodau dynol wedi defnyddio tân ers llawer mwy na 200,000 o flynyddoedd. Mae gwyddonwyr yn credu bod pobl wedi bod yn defnyddio tân dan reolaeth ers tua miliwn o flynyddoedd.
Mae'r fflagl Olympaidd yn cael ei chynnu gan ddefnyddio drych.	Cywir Defnyddiodd Groegiaid Hynafol ddrychau parabolig (drych ag arwyneb adlewyrchol ceugrwm) i ffocysu pelydrau'r haul er mwyn cynnu tân. Mae'r dechneg hon yn dal i gael ei defnyddio heddiw i gynnau'r fflagl Olympaidd.
Tân Mawr Llundain a arweiniodd at ddiwedd yr achos diwethaf o'r pla du yn y ddinas.	Cywir Ym 1666, dinistriodd Tân Mawr Llundain 80 y cant o'r ddinas a lladd y llygod mawr a'r chwain a fu'n gyfrifol am ledaenu'r pla du. Yn anffodus lladdodd hefyd fwy na 65,000 o bobl.
Mae tân angen tanwydd, ocsigen, a gwres i losgi.	Cywir Heb yr holl elfennau hyn o'r triongl tân, ni all tân ddechrau.
Mae pobl wedi defnyddio tanau signal a signalau mwg i 'siarad' â'i gilydd ers canrifoedd.	Cywir Tanau signal a signalau mwg yw rhai o'r dulliau cyfathrebu cynharaf oherwydd roedd modd eu defnyddio dros bellter hir. Mae'r dull cyfathrebu hwn wedi cael ei ddefnyddio ar draws y byd gan gynnwys Tsieina, Gogledd America, a Gwlad Groeg. Roedd fflaglau neu begynau tân yn cael eu cynnu mewn lleoliadau adnabyddus ar fryniau neu leoedd uchel i drosglwyddo newyddion, arwydd o berygl, neu gasglu pobl ynghyd. Rhoddwyd y signal gan fwg yn ystod y dydd a chan olau yn ystod y nos.



Datganiad	Ateb - cywir neu anghywir
Nid yw ymlosgiad digymell, sef sefyllfa lle mae rhywbeth yn dechrau llosgi yn sydyn heb unrhyw reswm amlwg, yn digwydd go iawn.	<p>Anghywir</p> <p>Mae ymlosgiad digymell yn gallu digwydd. Gall rhai tanwyddau gyrraedd tymheredd digon poeth ar eu pen eu hunain heb unrhyw reswm amlwg a dechrau llosgi.</p> <p>Er enghraifft, mae gan gnau pistachio lawer o olew naturiol a all arwain at ymlosgiad digymell. Gall teisi gwair, pentyrrau compost, blawd a phentyrrau o bapurau newydd a chylchgronau hefyd llosgi ar eu pen eu hunain.</p>
Gall fflamau tân fod yn lliwiau gwahanol.	<p>Cywir</p> <p>Mae lliw fflamau yn dibynnu ar y sylwedd sy'n cael ei llosgi.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o danwydd pren yn llosgi gyda fflam oren gan eu bod yn cynnwys sodiwm, sydd, o'i gynhesu, yn allyrru golau oren.</p> <p>Mae carbon a hydrogen yn llosgi gyda fflam las/fioled. Mae lithiwm yn llosgi gyda fflam goch.</p> <p>Mae copr yn llosgi gyda fflam werdd/las.</p> <p>Mae cyflenwad ocsigen yn dylanwadu ar liw'r fflam. Bydd tân ocsigen isel yn rhyddhau arlliw melyn. Mae tân ocsigen uchel yn llosgi'n las.</p> <p>Mae fflamau kannwyll yn llosgi'n las ar y gwaelod oherwydd dyna le mae ganddyn nhw'r mwyaf o ocsigen, a melyn ar y brig oherwydd bod y mwg sy'n codi o'r gwaelod yn mygu rhan uchaf y fflam yn rhannol.</p>
Nid yw fflamau canhwyllau yn mynd yn boeth iawn.	<p>Anghywir</p> <p>Mae fflam kannwyll yn llosgi ar tua 1,000 gradd Celsius (1800 Fahrenheit).</p>
Gellir atal tanau mewn 3 ffordd wahanol.	<p>Cywir</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cael gwared ar y ffynhonnell tanwydd trwy ei disbyddu neu gael gwared arni. 2. Cael gwared ar yr ocsigen trwy fygu'r tân. 3. Cael gwared ar y gwres trwy ei amsugno â dŵr neu ddeunydd nad yw'n fflamadwy.
Gall rhai tanau gwyllt gael effaith fuddiol ar yr amgylchedd naturiol.	<p>Cywir</p> <p>Mae tanau gwyllt sy'n digwydd yn naturiol a llosgiadau dan reolaeth yn chwarae rhan bwysig ym myd natur. Maent yn llosgi deunydd marw ac sy'n dadelfennu, gan ddychwelyd maetholion i'r pridd.</p> <p>Maen nhw'n gweithredu fel diheintydd, gan dynnu planhigion wedi'u heintio a phryfed niweidiol o ecosystem.</p> <p>Mae tanau gwyllt yn teneuo canopïau coedwigoedd ac isdyfiant fel y gall golau'r haul gyrraedd llawr y goedwig a chaniatáu i genhedlaeth newydd o hadau dyfu. Mae rhai rhywogaethau coed, fel secwoias, yn dibynnu ar dân i'w hadau agor.</p>
Gwrachod oedd yr unig droseddwr i gael eu llosgi wrth y stanc.	<p>Anghywir</p> <p>Llosgi wrth y stanc, dull o ddiennyddio a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y Dwyrain Canol hynafol ac a fabwysiadwyd yn ddiweddarach yn Ewrop a Gogledd America.</p> <p>Yn ogystal â dewiniaeth, defnyddiwyd llosgi wrth y stanc ar gyfer ystod eang o droseddau gan gynnwys brad (y drosedd o fradychu eich gwlad, yn enwedig trwy geisio lladd neu ddymchwel y sofran neu'r llywodraeth) a heresi (barn neu gred sy'n groes i neu yn erbyn yr hyn yw'r farn swyddogol neu boblogaidd).</p>



Datganiad	Ateb - cywir neu anghywir
Os byddwch yn gweld tân gwyllt dylech geisio ei ddiffodd.	Anghywir Os byddwch yn gweld tân gwyllt dylech: <ol style="list-style-type: none">1. Fynd i rywle diogel.2. Ffonio 999 a gofyn am y Gwasanaeth Tân ac Achub.3. Dweud wrthynt am leoliad, maint, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall am y tân.

Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addydg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk **0300 065 3000**

